**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-15-02(p.6)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2002 |
| **Lleoliad** | Ystafell Bwyllgor 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl** | Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig - Adroddiad ar y Gwasanaeth Nyrsys Ysgolion |

**Diben**

1. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi cynnwys yr adroddiad hwn, a ysgrifennwyd mewn ymateb i gais a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Mai am bapur ar yr argymhellion sy'n gysylltiedig â nyrsys ysgol yn y ddogfen *A Review of Health Visiting and School Nursing Services in Wales* (Ebrill 2000).

**Y Cefndir**

2. Comisiynwyd *A Review of Health Visiting and School Nursing Services in Wales* (Ebrill 2000) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cwblhawyd gan dîm adolygu o'r Ysgol Gwyddorau Iechyd ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe. Arweiniwyd y tîm gan yr Athro y Fonesig June Clark.

3. Mae'r adroddiad yn gwneud 31 o argymhellion sy'n gysylltiedig ag iechyd plant, ymweliadau iechyd, gwasanaethau nyrsys ysgol, addysg, y gweithlu a materion polisi ehangach. Nid yw'r argymhellion wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Defnyddiwyd yr Adolygiad hwn er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer y Strategaeth Gofal Sylfaenol *Dyfodol Gofal Sylfaenol: dogfen ymgynghori* (Gorffennaf 2001), a oedd yn nodi'r angen i ystyried "yr argymhellion penodol a wnaed yn sgil yr arolwg o'r gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd a nyrsys ysgol yng Nghymru" (t.31). Amgaeir crynodeb o'r argymhellion yn Atodiad 1.

3. Mewn rhai ardaloedd o Gymru, mae'r cyfrifoldeb am ddarparu nyrsys ysgol wedi ei rannu rhwng y GIG ac awdurdodau addysg lleol (AALl'au). Mae'r Adolygiad yn ymdrin â'r nyrsys hynny sy'n cael eu cyflogi gan y GIG.

4. Canfu'r Adolygiad bod y gwasanaeth nyrsys ysgol yn "dameidiog, yn wan ei ddatblygiad a heb ddigon o adnoddau" (t.208). Roedd cymysgwch o ran diben y gwasanaeth iechyd a gynigir mewn ysgolion,

hynny yw a ddylai fod yn wasanaeth i ysgolion, yn wasanaeth i blant yn yr ysgol, neu yn wasanaeth i blant oed ysgol. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn cael ei ddarparu fel gwasanaeth i blant yn yr ysgol, ac felly'n eithrio'r plant hynny nad oedd yn mynychu ysgolion a'i fod yn methu â sicrhau parhad gofal y tu hwnt i dymor yr ysgol.

6. Canfu'r Adolygiad fod tua 200 o nyrsys ysgol yng Nghymru yn brwydro i ddarparu gwasanaethau i 2000 o ysgolion ac i bron i hanner miliwn o blant ysgol. I bob golwg, nid oedd un nyrs ysgol newydd wedi'i hyfforddi yn ystod y pum mlynedd blaenorol.

**Materion i'w Hystyried**

7. Mae'r gwasanaethau nyrsys ysgol yn parhau i gael eu darparu gan ymddiriedolaethau'r GIG a chan AALl'au, ac mae i hyn oblygiadau o ran hyfforddi, rheoli llinell a llywodraethu clinigol ym maes nyrsio.

8. Mae argymhelliad 54 yn Adroddiad Carlile (Mawrth 2002) yn nodi: "Rydym yn argymell y dylai'r holl nyrsys ysgol gael eu cyflogi o fewn yr NHS, a'u hystyried yn bendant yn rhan werthfawr o'r system gofal sylfaenol ac y dylid rhoi ar waith yr argymhellion a geir yn *'Recognising the Potential: A Review of Health Visiting and School Health Services in Wales (*A ailenwyd yn: *A Review of Health Visiting and School Nursing Services in Wales)*." Derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chaiff ei ddatblygu yng nghyd-destun y Strategaeth Gofal Sylfaenol.

9. Mae argymhelliad 55 yn nodi: "Rydym yn argymell y dylai pob Ymddiriedolaeth NHS adolygu'r ddarpariaeth a'r rheolaeth o'r gwasanaeth nyrsys ysgol, gyda'r bwriad o ddarparu strwythur gyrfa deniadol a gwasanaeth mwy effeithiol." Derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chaiff ei ddatblygu yng nghyd-destun y Strategaeth Gofal Sylfaenol.

10. Mae'r adroddiad drafft sydd, hyd yn hyn, yn anghyflawn, *The Policies and Practices of Resuscitation: An In-Depth Study of Lessons to be Learned from Events at Ysgol Crug Glas. Report to the National Assembly for Wales* (Mai 2002), gan y Dr. Phillipa Russell CBE a thîm o'r Cyngor dros Blant Anabl, yn pwysleisio rôl bwysig nyrsys ysgol yng nghyd-destun darparu gofal ym myd addysg i blant sydd ag anghenion iechyd cymhleth, ac mae'n cymeradwyo'r argymhellion uchod yn Adroddiad Carlile. Yn ogystal, mae'r adroddiad hwn yn cymeradwyo argymhellion 12, 13, 15 a 18 yn *A Review of Health Visiting and School Nursing Services in Wales.*(Ebrill 2002). (Gweler Atodiad 1)

11. Nid oes manyleb ar nyrsys ysgol wedi'i datblygu ar gyfer Cymru gyfan, a cheir anghysondeb o hyd ledled Cymru. Mae'r manylebau ar gyfer nyrsys ysgol wedi cael eu datblygu i wahanol raddau gan wahanol ymddiriedolaethau'r GIG. Er enghraifft, mae'r ymddiriedolaethau ym Mro Taf ar hyn o bryd yn datblygu manyleb sy'n berthnasol i holl ardal yr awdurdod iechyd.

12. Mae'r gwasanaeth nyrsys ysgol yn parhau i ganolbwyntio ar blant yn yr ysgol, er bod hyn, mewn rhai

ardaloedd, wedi'i ymestyn i gynnwys gwaith y tu allan i oriau ysgol.

13. Nid yw'n ofynnol meddu ar gymhwyster nyrs ysgol er mwyn gweithio fel nyrs ysgol, ond mae'n ddymunol i nyrsys ysgol feddu ar y cymhwyster hwn. Mae ffigurau cynllunio'r gweithlu ar gyfer Cymru yn dangos bod 176.53 o nyrsys cyffredinol cofrestredig wedi'u cyflogi fel nyrsys ysgol ddiwedd mis Rhagfyr 2000. O'r rhain, roedd 72.97 yn meddu ar gymhwyster nyrs ysgol. Y ffigur a amcangyfrifir ar gyfer diwedd 2002 yw 238.72, ac o'r rhain disgwylir y bydd 134.17 yn meddu ar gymhwyster nyrs ysgol. Mae rhai nyrsys ysgol yn meddu ar gymhwyster nyrsio pediatrig.

14. Dim ond staff sy'n gweithio o fewn y GIG sy'n medru manteisio ar y cyllid Uned Prynu Addysg (EPU) ar gyfer hyfforddi nyrsys ysgol. Nid yw nyrsys ysgol sy'n cael eu cyflogi gan yr AALl'au yn medru gael gafael ar y cyllid hwn.

15. Ar hyn o bryd, mae dau sefydliad addysgol ar gontract i gynnig hyfforddiant nyrsys ysgol yng Nghymru, sef Prifysgol Morgannwg, sy'n cynnig cwrs rhan amser dros ddwy i bedair blynedd, ac Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWI), sy'n cynnig cwrs blwyddyn amser-llawn a chwrs rhan amser. Y rhifau a gomisiynwyd ar gyfer 2002/03 yw 10 ar gyfer Prifysgol Morgannwg a 7 ar gyfer NEWI.

16. Bydd gan nifer o ddatblygiadau oblygiadau i waith nyrsys ysgol:

- Yr argymhellion a geir yn adroddiad Hall 4 "Iechyd ar gyfer pob Plentyn".
- Mae Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru yn annog datblygu cynlluniau ysgolion iach lleol. Yn eu tro, mae'r rhain yn annog datblygu ysgolion hybu iechyd yn eu hardal. Disgwylir y bydd 600 o ysgolion yn cymryd rhan erbyn mis Mawrth 2004, sef tua 30% o'r ysgolion yng Nghymru.
- Dogfen yr Adran Iechyd (2001) *The Health Visitor and School Nurse Development Programme: School nurse practice development resource pack.* Bydd ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn defnyddio'r ddogfen hon i ddechrau prosiect peilot yn mis Medi, gan ganolbwyntio ar Drelái, Caerdydd. Bydd y prosiect yn para am flwyddyn academaidd a chaiff ei werthuso. Oherwydd bod dwy nyrs ysgol wedi ymddeol, mae'r gwasanaeth nyrsys ysgol yng Nhrelái wedi ei aildrefnu er mwyn galluogi tîm o nyrsys ysgol o wahanol raddau i ddarparu gwasanaeth iechyd y cyhoedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac sy'n ymateb i'r anghenion. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys argymhellion o adroddiad Hall 4. Bydd y tîm yn cysylltu â'r Cynllun Ysglion Iach ac asiantaethau gwirfoddol yn Nhrelái.
- Posibilrwydd o gyd-leoli gwasanaethau iechyd ac addysg yn yr ysgol.

**Casgliadau**

17. Mae'r Adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth gefndir am y gwasanaeth nyrsys ysgol yng Nghymru. Er bod dwy flynedd wedi mynd heibio ers i argymhellion yr Adroddiad ar nyrsys ysgol gael eu gwneud, maent yn dal i fod yn berthnasol heddiw. Mae'r gwasanaeth nyrsys ysgol yng Nghymru yn parhau i fod yn wasanaeth tameidiog a thanddatblygedig. Mater i'w ystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y

dyfodol fydd argymhellion yr Adroddiad a phenderfynu a ddylid eu cymeradwyo ai peidio.

Jane Hutt
Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cysylltir â: Dr. Andrea Thomas, Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio